Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Beauty Therapy Practitioner (Body)

## Competition Overview

A Beauty Therapy Practitioner carries out a range of high quality beauty and skincare services including make-up, manicure, pedicure, massage and other body therapy treatments; all within the required health and safety standards.

In this competition, competitors will be assessed on a series of tasks to complete a luxury eye treatment, including; a full facial cleanse, skin analysis, exfoliate, eye massage and application of an eye mask.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the Beauty Therapy Industry and studying towards a Level 3 qualification.
Please ensure your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 2 per location plus maximum of 2 reserves can be registered incase of absence.This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.

This is determined by ‘location’ and ‘organisation’.  ‘Organisation’ refers to the competitors’ training provider/employer. ‘Location’ refers to a site where the competitor studies / is employed.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete.
The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, click here.

## Brief

Competitors taking part in this competition should be able to demonstrate:

- Professional demeanor.
- Safe working practices.
- Professional attitude.
- Effective interaction with the client.
- High level of skill and dexterity.
- Management of time allocation.
- Ergonomic working methods.

Check points (CP) will be used, to allow the judges to mark work at various stages during the competition, these are clearly marked below. Time checks (TC) are also used to inform the judges when a competitor has started and finished certain tasks (TC). Competitors will be required to indicate these to the judges by raising their hand.

**Luxury Eye Treatment - 1 hour 20 minutes**

The competitor will take control of their own timings, there will be no breaks between treatments. The treatments must be performed in the following order;

This treatment should include:

- **Eye, lip, face and neck cleanse** (CP after all make up is removed)
- **Skin analysis** – competitors should provide their own skin analysis sheet that they are familiar working with, as well as a clipboard and pen. Skin analysis sheets will be submitted at the end of the competition and should include aftercare advice. The name of the training provider or logo should not be visible.
- **Facial exfoliant** (CP all residue, skin is dry and exfoliant is removed)
- **Eye massage –** massage that focuses on just the eye area (TC Minimum of 15 mins). Competitors can use what massage medium is appropriate for the client and the eye area.
- **Eye mask** (TC Minimum application time of 20 mins) A scalp massage and hand massage must be provided during this time. Please see below for an example of a suitable eye mask for the competition.
- **Tone and moisturise –** competitors should treat the eyes and face according to the client's requirements and skin type. This includes any serums the competitors wish to use.
- **Eye mask –** the eye mask can be a collagen, cloth or gel mask for the eye area. It must surround the eyes like the examples below, rather than just an under eye mask. The masks can be cut during the application process to fit the client's face.

Example 1 - Amazon - Garnier Hydra Bomb Eye Mask
Example 2 - Amazon - Skin Republic Brightening Eye Mask

(These are examples, competitors are not required to buy these specific masks but something similar. For application, instructions should be followed as per the manufacturer and the competitor should complete a client suitability test prior to the competition)

**Important note** – Models must arrive with pre applied makeup, foundation, mascara and lipstick. Judges will check prior to the competition starting, marks will be deducted if the model has no/insufficient makeup.

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please click here to access.

## Infrastructure List

Beauty Couch, mag lamp and trolley will be provided by the host - all other equipment, tools and products must be the competitors own.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

**Specific rules**

- Competitors must set up and participate in the competition on their own. At no point should accompanying tutors, colleagues or others be in the competition area before or during the competition. Models will enter the room at the start time of the competition.
- Where there are a number of competitors from a different campus attached to the same organisation, the competitors' workstations will be placed around the competition area at the discretion of the judges.
- Competitors must not bring any ornaments to decorate their work area ie. flowers, vases, etc.
- Competitors must ensure that they keep to timings set by judges at the beginning of the competition; extra time will not be allocated to those who are not ready for each task.
- Competitors should be dressed in beauty therapy attire and present themselves in a manner which would be acceptable within commercial enterprises. No jewellery or piercings are to be worn.
- Competitors must cover all logos and other items that identify their colleges or other organisations of origin.
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges.
- During the competition, competitors should not disturb other students/teams or speak to members of the public.
- Any competitor who wishes to leave the area during the competition must seek the permission of the judges.
- If there is a power stoppage, breakdown of machinery or accident, the competitors must act according to the instructions of the judges.
- Competitors who break or damage their own equipment during the competition will not

receive additional time.
- Competitors will be required to bring a model on the day. The models must not be contra-indicated to any of the treatments.
- Models will be checked prior to the competitions; any found to be unsuitable will incur penalties for the competitor. Models must not aid the competitor in any way as this may affect the competitor's marks.
- Competitors are responsible for supplying all products and equipment, including towels. Hosts will however provide a couch, magnification lamp, stool and trolley. Only trolleys or your own storage boxes, under the couch, should be used for products and equipment. Any items placed on sinks, shelves and cupboards in the work area will be asked to be moved.

**Where a competitor is observed working in an unsafe manner, s/he will be stopped and not permitted to continue unless willing to follow the judges' directions.**

**Generic competition rules**
- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment
Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.
Brief breakdown of marking and assessment.

| Task | Description | Marks awarded |
|---|---|---|
| Personal and Interpersonal Skills | Appearance (uniform, shoes, therapist's own make up & nails, no jewelry), employability skills including client care, time management, Hygiene and health & safety. Client support & positioning and client care. | 34% |

| | | |
|---|---|---|
| Luxury Eye Treatment | Ability to follow the requirements of the brief re make up on model<br>Eye, lip, face and neck cleanse<br>All make up is removed<br>Execution of Skin Analysis<br>Application & removal of exfoliant<br>Eye massage technique<br>Time checks of massage and mask (TC)<br>Eye mask application<br>Scalp and hand massage<br>Skin is toned and moisturised appropriate to the condition of the skin, skin type and client requirements<br>Results of the completed skin analysis and aftercare advice sheet<br>Treatment is completed within time<br>Marks will be deducted if the model has no/insufficient makeup. | 66% |
| | **Total** | **100%** |

Objective assessment will be used whenever the process or product is correct or incorrect, complete or incomplete, against a given benchmark that the judges can agree on (0/1). It is used whenever it is possible to take a measurement of some kind.

For all judgment criteria, the following marking scale will be used/ or a variation:
0 – Does not meet industry standard
1 – Meets minimum industry standard
2 – Meets industry standard
3 – Exceeds industry standard

## Feedback and Recognition

Developmental Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 13th March 2025, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

## Competition Lead

**Lead Contact:**
Robert Jones
robert.jones1@cambria.ac.uk

**Expert Contacts:**
Ruth Payton
ruth.payton@cambria.ac.uk

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Ymarferydd Therapi Harddwch (Corff)

## Trosolwg o’r Gystadleuaeth

Bydd Ymarferydd Therapi Harddwch yn cyflawni ystod o wasanaethau harddwch a gofal croen o safon uchel gan gynnwys coluro, trin ewinedd y dwylo a’r traed, tylino a thriniaethau therapi corff eraill; a’r cyfan o dan safonau iechyd a diogelwch gofynnol.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd y cystadleuwyr yn cael eu hasesu am wneud cyfres o dasgau i gwblhau triniaeth llygaid moethus, gan gynnwys; glanweithio'r wyneb yn llawn, dadansoddi'r croen, digennu, tylino'r llygaid a rhoi mwgwd llygad.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf Mynediad

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Therapi Harddwch ac yn astudio tuag at gymhwyster Lefel 3.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at 2 o bob lleoliad a gellir cofrestru uchafswm o 2 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.
Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae’r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae’r 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuydd yn astudio / cael ei gyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu.
Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau

Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

I gael rhagor o arweiniad ar y capasiti hyn, cliciwch yma

## Briff

Dylai’r cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon allu dangos

- Ymddygiad proffesiynol.
- Arferion gweithio diogel.
- Agwedd broffesiynol.
- Rhyngweithio effeithiol â'r cleient.
- Lefel uchel o sgil a deheurwydd.
- Gallu i reoli’r amser sy’n cael ei osod.
- Dulliau gweithio ergonomig.

Bydd siecbwyntiau (CP) yn cael eu defnyddio, i ganiatáu’r beirniaid i farcio gwaith ar wahanol gamau yn ystod y gystadleuaeth. Mae'r rhain wedi'u marcio'n glir isod. Bydd gwiriadau amser (TC) hefyd yn cael eu defnyddio i hysbysu'r beirniaid pan fydd cystadleuydd wedi dechrau a gorffen tasgau penodol (TC). Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddynodi hyn i'r beirniaid drwy godi eu llaw.

**Triniaeth Llygaid Moethus - 1 awr 20 munud**

Bydd y cystadleuydd yn gyfrifol ei amserau ei hun. Ni fydd unrhyw seibiannau. Rhaid cynnal y driniaeth yn y drefn ganlynol:

Dylai'r driniaeth hon gynnwys:

- **Glanweithio llygaid, gwefusau, wyneb a gwddf** (CP ar ôl tynnu’r colur i gyd)
- **Dadansoddi croen** - dylai'r cystadleuwyr ddarparu eu taflen dadansoddi croen eu hunain y maent yn gyfarwydd â’i defnyddio, yn ogystal â chlipfwrdd a beiro. Bydd taflenni dadansoddi croen yn cael eu cyflwyno ar ddiwedd y gystadleuaeth a dylent gynnwys cyngor ôl-ofal. Ni ddylai enw'r darparwr hyfforddiant na'r logo fod yn weladwy.
- **Digennu wyneb** (CP yr holl weddillion, y croen yn sych a’r digennydd wedi ei dynnu)
- **Tylino llygaid** – tylino sy'n canolbwyntio ar ardal y llygaid yn unig (TC Lleiafswm o 15 munud). Gall cystadleuwyr ddefnyddio unrhyw gyfrwng tylino sy'n briodol ar gyfer y cleient ac ardal y llygaid.
- **Mwgwd llygaid** (TC Isafswm amser gosod o 20 munud) Mae'n rhaid tylino croen y pen a thylino'r dwylo yn ystod yr amser hwn. Gweler isod am enghraifft o fwgwd llygaid addas ar gyfer y gystadleuaeth.
- **Tynhau a lleithio** - dylai cystadleuwyr drin y llygaid a'r wyneb yn unol â gofynion a math o groen y cleient. Mae hyn yn cynnwys unrhyw serwm y mae'r cystadleuwyr yn dymuno ei defnyddio.

- **Mwgwd llygaid** – gall y mwgwd llygaid fod yn fwgwd colagen, defnydd neu gel ar gyfer ardal y llygad. Mae'n rhaid iddo amgylchynu'r llygaid fel yr enghreifftiau isod, yn hytrach na mwgwd dan y llygaid yn unig. Gellir torri'r mygydau yn ystod y broses o roi ar wyneb y cleient.

Enghraifft 1 - Amazon - Garnier Hydra Bomb Eye Mask
Enghraifft 2 - Amazon - Skin Republic Brightening Eye Mask
(Enghreifftiau yw'r rhain, nid oes raid i gystadleuwyr brynu'r masgiau penodol hyn ond rhywbeth tebyg. Er mwyn eu rhoi ar yr wyneb, dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a dylai'r cystadleuydd gwblhau prawf addasrwydd cleient cyn y gystadleuaeth)

**Nodyn pwysig** - Mae'n rhaid i fodelau gyrraedd yn gwisgo colur wedi'i roi ymlaen llaw, colur sylfaen, mascara a minlliw. Bydd y beirniaid yn gwirio hyn cyn i'r gystadleuaeth ddechrau, bydd marciau'n cael eu tynnu os nad yw'r model yn gwisgo colur / colur annigonol'

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, cliciwch yma i gael mynediad iddynt.

## Rhestr Seilwaith

Lamp chwyddwydr, bydd Mainc Harddwch a throli yn cael eu darparu gan y gwesteiwyr – fel arall, bydd yr holl offer, teclynnau a chynnyrch yn rai sy'n perthyn i'r cystadleuwyr eu hunain.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

Am delerau ac amodau ymgeisio a'r rheolau cystadlu ewch i.

### Rheolau penodol

- Rhaid i gystadleuwyr osod eu hoffer a chymryd rhan yn y gystadleuaeth ar eu pennau eu hunain. Ni ddylai tiwtoriaid, cydweithwyr nac unrhyw un arall fod yn ardal y gystadleuaeth ar unrhyw adeg, nid cyn nac yn ystod y gystadleuaeth. Bydd y modelau'n dod i mewn i'r ystafell ar ddechrau'r gystadleuaeth.
- Os oes nifer o gystadleuwyr o gampws gwahanol ynghlwm â'r un sefydliad, bydd mannau gweithio'r cystadleuwyr yn cael eu gosod o amgylch ardal y gystadleuaeth fel y bydd y beirniaid yn penderfynu.
- Ni chaniateir i'r cystadleuwyr ddod ag unrhyw addurniadau i addurno eu hardal waith h.y. blodau, fasau, ac ati.
- Rhaid i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn cadw at amseriadau a osodir gan y beirniaid ar ddechrau'r gystadleuaeth. Ni fydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo i'r rhai sydd ddim yn barod ar gyfer pob tasg.
- Dylai'r cystadleuwyr wisgo gwisg therapi harddwch a chyflwyno eu hunain mewn modd a fyddai'n dderbyniol mewn busnesau masnachol. Ni ddylid gwisgo gemwaith

nac addurniadau tyllau'r corff.
- Rhaid i gystadleuwyr orchuddio pob logo ac unrhyw eitemau eraill sy'n dynodi eu colegau neu sefydliadau eraill maent yn rhan ohono.
- Bydd cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen gwaith yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Yn ystod y gystadleuaeth, ni ddylai cystadleuwyr darfu ar fyfyrwyr/timau eraill na siarad ag aelodau o'r cyhoedd.
- Rhaid i unrhyw gystadleuydd sy'n dymuno gadael yr ardal yn ystod y gystadleuaeth ofyn am ganiatâd y beirniaid i wneud hynny.
- Os oes toriad trydan, peiriannau yn methu neu ddamwain, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n torri neu'n difrodi eu hoffer eu hunain yn ystod y gystadleuaeth yn cael amser ychwanegol.
- Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddod â model ar y diwrnod. Ni ddylai'r modelau fod yn wrthrybuddiol i unrhyw un o'r triniaethau.
- Bydd modelau'n cael eu profi cyn y cystadlaethau; bydd unrhyw un a ddarganfyddir i fod yn anaddas yn arwain at gosb i'r cystadleuydd. Ni ddylai'r modelau gynorthwyo'r cystadleuydd mewn unrhyw ffordd gan y gallai hyn effeithio ar farciau'r cystadleuydd.
- Cystadleuwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl gynnyrch a chyfarpar, gan gynnwys tywelion. Fodd bynnag, bydd y gwesteiwyr yn darparu mainc, chwydd-lamp, stôl a throli. Dim ond troliau neu eich blychau storio eich hun, o dan y fainc, y dylai gael eu defnyddio ar gyfer cynnyrch ac offer. Mi fydd rhaid gofyn i symud unrhyw eitemau a gaiff eu rhoi ar sinciau, silffoedd a chypyrddau yn y man gwaith.

**Os gwelir cystadleuwyr yn gweithio mewn modd anniogel, byddant yn cael ei stopio ac ni chaniateir iddynt barhau oni bai eu bod yn fodlon dilyn cyfarwyddiadau'r beirniaid.**

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**
- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael eu gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid rhoi gwybod i'r panel beirniadu am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu o'r Darparwr Hyfforddiant yn marcio

ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi'u gosod i sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad byr o’r marcio a’r asesu.

| **Tasg** | **Disgrifiad** | **Marciau a ddyfarnwyd** |
|---|---|---|
| Sgiliau personol a rhyngbersonol | Ymddangosiad - gwisg, esgidiau, colur ac ewinedd y therapydd ei hun, dim gemwaith<br>Sgiliau cyflogadwyedd gan gynnwys gofal cleientiaid<br>Rheoli amser<br>Hylendid<br>Iechyd a Diogelwch<br>Cefnogi a lleoli cleientiaid<br>Gofal cleientiaid | 34% |
| Triniaeth llygaid | Y gallu i ddilyn gofynion y briff yngylch colur ar y model<br>Glanweithio'r llygaid, gwefusau, wyneb a gwddf<br>Tynnu’r holl golur<br>Cyflawni Dadansoddiad Croen<br>Rhoi a thynnu digennydd<br>Techneg tylino llygaid<br>Gwiriadau amser tylino a mwgwd (TC)<br>Rhoi mwgwd llygaid<br>Tylino croen y pen a dwylo<br>Croen wedi'i dynhau ('tonio') a'i leitho yn briodol i gyflwr y croen, y math o groen a gofynion y cleient<br>Canlyniadau'r dadansoddiad croen a'r daflen cyngor ôl-ofal wedi'i chwblhau<br>Y driniaeth yn cael ei chwblhau mewn pryd<br>Bydd marciau'n cael eu tynnu os nad oes gan y model golur / dim digon o golur | 66% |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

Bydd asesiad gwrthrychol yn cael ei ddefnyddio unrhyw amser mae’r broses neu'r cynnyrch yn gywir neu'n anghywir, yn gyflawn neu'n anghyflawn, yn erbyn meincnod penodol y gall y beirniaid gytuno arno (0/1). Mae’n cael ei ddefnyddio unrhyw gyfle sy’n bosib i gymryd mesuriad o ryw fath.

Ar gyfer meini prawf yr holl feirniadaeth, bydd y raddfa farcio ganlynol/neu amrywiaeth ohono yn cael ei ddefnyddio:

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2024 – Skills Competition Wales 2024

0 – Nid yw'n bodloni safon y diwydiant
1 – Bodloni safon ofynnol isaf y diwydiant
2 – Bodloni safon y diwydiant
3 – Yn rhagori ar safon y diwydiant

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Rhoddir adborth llafar mewn grŵpiau ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau yn cael eu rhoi ar y diwrnod gan y bydd y marcio'n cynnwys elfen sicrhau ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 13 Mawrth 2025 , bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt:**
Robert Jones
robert.jones1@cambria.ac.uk

**Cyswllt Arbenigol:**
Ruth Payton
ruth.payton@cambria.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2024 – Skills Competition Wales 2024